PWYLLGOR CRAFFU
LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID HINSAWDD

4 HYDREF 2022

PRESENNOL: (Yn y Siambr) Cynghorydd J.D. James (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):
P. Cooper, K. Davies, G.B. Thomas.

Cynghorwyr (Yn rhithwir):
S.M. Allen, N. Evans, T.M. Higgins, G.R. Jones.
B.D.J. Phillips, N. Lewis, A. Evans.

Hefyd yn bresennol:
Y Cynghorydd A. Vaughan Owen, Yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd.

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod (Yn y Siambr):
N. Daniel, Pennaeth Gwasanaethau TGCh a Pholisi Corfforaethol;
S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth;
J. Edwards, Rheolwr Gwella Busnes;
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau;
D.W. John, Rheolwr Gwasanathau Amgylcheddol;
S. Rees, Cyfieithydd ar y Pryd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cymerwr Cofnodion].

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod (Yn rhithwir):
R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd;
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel;
K. Davies, Rheolwr Datblygiad Cynaliadwy;
R. Carmichael, Rheolwr Cadwraeth Gwledig.

Y Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell: 10:00yb - 11:40yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd A.D.T. Davies a'r Cynghorydd C. Evans.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch unrhyw chwip waharddedig.
Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD 2021/22

Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu – Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd ar y gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn y cyngor 2021/22. Nodwyd bod yr adroddiad wedi'i baratoi'n unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor a'i fod yn rhoi trosolwg o'r rhaglen waith a materion allweddol dan sylw, gan gynnwys hefyd unrhyw faterion a gyfeiriwyd at neu gan y Cabinet, adolygiadau Gorchwyl a Gorffen a sesiynau datblygu.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd ar gyfer 2021/22.

5. CAMAU GWEITHREDU'R PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD - 2021/22

Cafodd y Pwyllgor y camau gweithredu oedd yn deillio o'r Pwyllgor Craffu – Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd o'i waith yn ystod 2021/22 a bu'n ystyried y cynnydd a wnaed mewn perthynas â chamau gweithredu, gofynion neu atgyfeiriadau a gofnodwyd yn ystod cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y dylid derbyn Adroddiad Camau Gweithredu Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd ar gyfer 2021/22.

6. BLAENRAGLEN WAITH AR GYFER 2022/23

Ystyriodd y Pwyllgor, yn unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor, ei Flaengyllun Gwaith drafft ar gyfer 2022/23. Bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried ei drefniadau Gorchwyl a Gorffen ar gyfer 2022/23-24.

Yn ei sesiwn datblygu Blaengynllun Gwaith anffurfiol ar 21 Medi 2022, dechreuodd y Pwyllgor y broses o lunio'r blaengynllun gwaith ar gyfer 2022/23. Mae canlyniad y sesiwn ddatblygu bellach wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor yn y Blaengynllun Gwaith i'w gadarnhau.

Datblygodd yr aelodau Flaengynllun Gwaith y Pwyllgor gan ystyried y pynciau sy'n peri pryder o fewn maes gorchwyl y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd, gan reoli'r agenda drwy Fethodoleg Porth.

Hefyd, drwy gydol y flwyddyn, nododd yr Aelodau y byddent yn ystyried Blaengynllun Gwaith y Cabinet er mwyn nodi adroddiadau cyn gwneud penderfyniadau y maent am eu rhoi ar y Blaengynllun Gwaith Craffu

Roedd yr adroddiad yn rhoi sylw i'r ffaith bod y Pwyllgor, yn ei gyfarfod ar 2 Gorffennaf 2021, wedi cytuno'n ffurfiol bod y trefniadau Gorchwyl a Gorffen ar gyfer 2021/22-2023 yn cael eu cyflawni yn y drefn ganlynol:-

1) Adolygu'r gwaith o Reoli Tipio Anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin
2) Adolygu bridio cŵn yn Sir Gaerfyrddin.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi'r trefniadau a gytunwyd yn flaenorol ar gyfer yr adolygiadau Gorchwyl a Gorffen ar gyfer 2022/2023-2024.

Wrth ystyried y trefniadau ar gyfer yr adolygiadau Gorchwyl a Gorffen, codwyd pryder ynghylch yr amser y byddai'n ei gymryd i gynnal yr adolygiad bridio cŵn. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor Craffu ond yn ymgymryd ag un Adolygiad Ymchwiliol (Gorchwyl a Gorffen) o fewn blwyddyn y cyngor, ond y gobaith oedd y byddai'r adolygiad o Reoli Tipio Anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin yn cael ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2023, gan ganiatáu i'r adolygiad bridio cŵn yn Sir Gaerfyrddin ddechrau yn ystod blwyddyn y cyngor 2023-2024.

Yn ogystal, mewn perthynas ag adolygiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen o Fridio Cŵn yn Sir Gaerfyrddin, dywedodd y Pennaeth Tai wrth y Pwyllgor nad yw'r amodau a'r ddeddfwriaeth o ran bridio cŵn wedi dod i law eto gan Lywodraeth Cymru ac felly byddai'n well ddechrau'r adolygiad y flwyddyn nesaf.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

6.1 gymeradwyo'r Blaengynllun Waith Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd ar gyfer 2022/22.

6.2 cyflwyno Blaengynllun Waith Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd ar gyfer 2022/23 gydag adroddiadau cyn gwneud penderfyniadau a nodwyd o Flaengynllun y Cabinet i'w cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.

6.3 Nodi'r trefniadau ar gyfer adolygiadau Gorchwyl a Gorffen ar gyfer 2022/23 - 2023/2024 fel y nodir o fewn yr adroddiad.

7. ADOLYGIAD O FLAEN-GYNLLUN DEDDF YR AMGYLCHEDD CYNGOR SIR CAERFYRDDIN 2020-2023

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd wedi'i atodi i Flaengynllun Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Cyngor Sir Caerfyrddin 2020-23 i'w ystyried. Amlinellodd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd y cynnydd yr oedd y Cyngor yn ei wneud wrth gyflawni ei rwymedigaeth gyfreithiol gan gyfeirio at y Ddeddf.Mae'r Cynllun yn ymdrin â'r cyfnod rhwng Ionawr 2020 a Rhagfyr 2022.

Er mwyn cyflwyno tystiolaeth o'r ddyletswydd hon, o dan y Ddeddf Amgylchedd, roedd dyletswydd statudol ar bob corff cyhoeddus yng Nghymru i baratoi a chyflawni ei Ddyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 sy'n cael ei rhoi arni gan y Ddeddf hon. Mae'r cynllun yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd. Yn ogystal, mae'n ofyniad statudol bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn adrodd ar ddarpariaeth ei Flaengynllun Deddf yr Amgylchedd i Lywodraeth Cymru bob tair blynedd ac mae'r adroddiad nesaf i'w gyflwyno erbyn mis Rhagfyr 2022.

Nododd yr Aelodau fod dull Sir Gaerfyrddin o ddatblygu a chyflawni ei Flaen-gynllun wedi cynnwys ymgysylltu â swyddogion i edrych ar eu harferion gwaith, eu cynlluniau a'u prosiectau tra'n eu cynorthwyo i nodi cyfleoedd presennol ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau, ochr yn ochr â chyflawni eu rhwymedigaethau a'u hamcanion eraill.

Pwysleisiodd yr adroddiad fod y camau a nodwyd yn y Blaengynllun yn gysylltiedig ag Amcanion Llesiant y Cyngor a nodwyd dyddiadau targed ar gyfer cyflawni pob cam gweithredu a nodwyd y swyddi a oedd yn gyfrifol.

Holwyd ynghylch y canlynol mewn perthynas â'r adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y golofn 'Erbyn Pryd neu Darged Diwedd y Flwyddyn'. Codwyd sylw ynghylch yr adrodd anghyson o ran y targedau gweithredu. Doedd gan rai ddim targedau, roedd gan eraill ddyddiadau yn y gorffennol ac roedd rhai'n parhau ar waith, codwyd y byddai eglurder pellach o ran targedau yn fuddiol wrth symud ymlaen. Roedd Pennaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol wrth egluro'r disgrifiad o'r targedau, yn cydnabod y byddai'n fuddiol i'r targedau fod yn fwy disgrifiadol er mwyn rhoi gwell eglurder a dealltwriaeth i'r darllenydd. Yn ogystal, rhoddodd y Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad ddiweddariad ar lafar ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas ag adran 3 o'r cynllun.

- Mewn ymateb i ymholiad a godwyd ynghylch y broses o roi coed newydd yn lle'r coed ynn sydd wedi'u gwaredu o ganlyniad i Glefyd Coed Ynn, eglurodd y Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad fod plannu coed newydd yn rhan annatod o gynllun Clefyd Coed Ynn gan nodi bod 200+ o goed newydd wedi'u plannu dros y 2 aeaf diwethaf ger Parc Dewi Sant, Caerfyrddin, a bydd rhagor o yn cael eu plannu dros y gaeaf hwn. Yn ogystal, nodwyd bod 3 safle wedi'u nodi ar gyfer plannu'r gaeaf hwn o ran eiddo a oedd wedi cael ei osod yn flynyddol ar gyfer pori, gyda grantiau Creu Coetiroedd Glastir gan Lywodraeth Cymru. Dywedwyd bod y grantiau hyn wedi cymryd 2 flynedd i'w cytuno ac yn hynny o beth roedd rhaglen o geisiadau grant ar waith yn dilyn nodi tir addas heb unrhyw werth bioamrywiaeth presennol ar gyfer plannu coed newydd. Cafodd aelodau wybod bod ardaloedd newydd ar gyfer plannu yn cael eu ceisio ar draws y Sir o dan yr adolygiad tir strategol.

  Gofynnwyd a oedd y coed newydd a blannwyd ar dir Awdurdod Lleol yn cael eu bwydo i dargedau presennol Llywodraeth Cymru o ran nifer yr erwau o fewn cyfnod amser penodol? Yn ôl y Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad cafodd gwaith plannu coed newydd ei ariannu gan Gynllun Creu Coetiroedd Glastir a fyddai wedyn yn cael ei gyfrif tuag at dargedau Llywodraeth Cymru.

Ychwanegodd y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd y byddai strategaeth coed yn cael ei datblygu eleni a fyddai'n cynnwys sut mae'r Cyngor yn buddsoddi ac yn rheoli ei bortffolio coed ar draws y Sir. Yn ogystal, eglurwyd, er mwyn rheoli asedau'r Cyngor, y byddai offeryn porth / rheoli yn cael ei ddatblygu i gynorthwyo gyda rheoli Clefyd Coedd Ynn ar dir y Cyngor.

Mewn ymateb i ymholiad pellach ynghylch rhoi coed newydd yn lle'r coed ynn, dywedodd y Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad nad oedd coed ynn yn cael eu plannu gan nad oedd meithrinfeydd yn cynhyrchu'r rhywogaeth. Roedd llawer o rywogaethau brodorol eraill yn cael eu plannu a oedd yn cynnwys Derw, Asbri, Aethnenni, Bedw a Cheirios Duon i enwi rhai er mwyn gwneud coetiroedd yn wydn i heriau i glefydau coed yn y dyfodol.

Esboniodd y Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad fod swydd barhaol Swyddog Diogelwch Coed yn gysylltiedig ar lefel genedlaethol yng Nghymru o ran Clefyd Coed Ynn a adroddodd fod Sir Gaerfyrddin yn arweinydd i awdurdodau lleol Cymru o ran rheoli'r clefyd.

- Gofynnwyd a oedd unrhyw gymorth ar gael ar gyfer prosiectau llai o fewn Cynghorau Tref a Chymuned? Dywedodd y Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad fod cysylltiadau ar waith drwy'r Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ac mae llawer o ffrydiau cyllido eraill ar gael i Gynghorau Tref a Chymuned i blannu coed, megis Coed Cadw. Cadarnhawyd cysylltiadau agos ag Un Llais Cymru i ddarparu gwybodaeth a lle i gael mynediad at arian prosiect. Fodd bynnag, byddai'r tîm Cadwraeth a Bioamrywiaeth yn hapus i ymateb i geisiadau am gyngor a syniadau.

  Yn ogystal, wrth ddweud ei bod yn ymddangos bod cefnogaeth gyfyngedig i Gynghorau Tref a Chymuned, gofynnwyd a oedd unrhyw le i roi cymorth i helpu i gynnal asedau yn y tymor hwy. Y teimlad oedd bod Cynghorau Cymuned lleol yn ofalus wrth ymwneud â phrosiectau bach oherwydd goblygiadau posib i'r gyllideb yn y tymor hwy. Cytunodd y Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad, wrth gydnabod y pryder, nad oedd ateb ar hyn o bryd gan fod llawer o'r cyllid ar gyfer Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn dod o gyllidebau cyfalaf. Cynghorwyd pwysleisio cadw costau cynnal a chadw yn y dyfodol mor isel â phosibl o gyfnod dylunio prosiect.

- Mewn ymateb i ymholiad a godwyd mewn perthynas â nifer yr hectarau roedd y Cyngor wedi cynllunio ar gyfer y plannu coed newydd dan Gynllun Creu Coetiroedd Glastir, dywedodd y Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad mai'r bwriad oedd plannu tua 4.5 hectar gyda Chynllun Coetiroedd Glastir a 2.5 hectar pellach y flwyddyn nesaf, yn amodol ar dderbyn y cynigion.

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch cynnal a chadw coed drwy'r cyfnod o dyfu, eglurodd y Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad fod Glastir yn darparu taliadau blynyddol i'r ardaloedd o dan y cynllun hwnnw.

Cynigiodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd, yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor, i gasglu'r adborth a gafwyd gan y Panel Cynghori ar Newid Hinsawdd, swyddogion ac Aelodau mewn perthynas â'r camau sy'n gysylltiedig â Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Cyngor Sir Caerfyrddin a'i adrodd i'r Pwyllgor. Byddai'r dull rhagweithiol hwn yn helpu i lywio a llunio'r cynllun 3 blynedd nesaf. Wrth groesawu'r dull hwn, cynigiwyd yn ffurfiol bod yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd yn cyflwyno'r adborth perthnasol mewn perthynas â'r camau gweithredu o fewn Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Cyngor Sir Caerfyrddin i'r Pwyllgor. Eiliwyd y cynnig hwn.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

7.1 bod yr adolygiad o Flaengynllun Deddf yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin 2020-2023 yn cael ei dderbyn a

7.2 nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud o ran cyflawni ei Flaengynllun Deddf yr Amgylchedd ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ionawr 7.2 a mis Rhagfyr 2022 a bodloni ei rwymedigaeth gyfreithiol wrth gyfeirio at y Ddeddf.

7.3 bod yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd yn darparu'r adborth perthnasol mewn perthynas â'r camau gweithredu o fewn Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Cyngor Sir Caerfyrddin i'r Pwyllgor.

8. ADRODDIAD CYNNYDD Y CYNLLUN CARBON SERO NET

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Cynnydd Cynllun Carbon Sero Net a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd.

Cymeradwyodd y Cyngor Sir Gynllun Carbon Sero Net ar 12 Chwefror 2020 ac roedd Cam Gweithredu 28 o'r Cynllun yn gofyn am adroddiadau perfformiad ar gynnydd tuag at ddod yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030 i'w gyhoeddi'n flynyddol.

Holwyd ynghylch y canlynol mewn perthynas â'r adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y tabl, crynodeb o'r cynnydd – Ôl Troed Carbon ar dudalen 3 o'r adroddiad. Teimlwyd y byddai'n fuddiol cynnwys ffigwr ariannol yn y tabl a fyddai'n dangos yn nhermau ariannol faint o ynni oedd yn cael ei arbed. Dywedodd y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd fod Archwilydd Cyffredinol Cymru, ar ôl cwblhau adolygiad yn ddiweddar ar gynlluniau newid hinsawdd yng Nghymru, wedi nodi y byddai cynnwys costau ariannol a briodolir i'r ôl troed carbon yn fuddiol. Felly, bydd cost ariannol yn cael ei gynnwys yn y fersiwn nesaf o'r cynllun.

Yn ogystal, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am y gwaith fyddai'n cael ei wneud i ddatblygu'r cynllun ymhellach gan gynnwys rhagor o wybodaeth ynddo a thaflwybrau mewn perthynas â'r rhaglenni a'r cynlluniau yr oedd y Cyngor wedi ymrwymo iddynt hyd yn hyn.

- Wrth ganmol cynnwys yr adroddiad, dywedwyd y byddai'n gyfle ystyried cynhyrchu trydan. Teimlwyd bod paneli solar ben to yn rhy fach ar gyfer galw ynni'r adeiladau y cawsant eu lleoli arnynt. Nodwyd bod y Cyngor yn cynhyrchu 1 awr megawat (MWh) yn flynyddol yn gyffredinol, sef 50% yn llai na'r hyn a gynhyrchir gan y sector cymunedol yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd. Gan gofio'r wybodaeth hon, gofynnwyd a oedd unrhyw gynlluniau i gynyddu faint o drydan sy'n cael ei gynhyrchu drwy baneli solar, batris a thyrbinau gwynt o bosib? Esboniodd y Rheolwr Datblygu Cynaliadwy fod cyrraedd sefyllfa 'carbon sero' yn amhosibl ac mai'r unig ffordd o gyrraedd 'carbon sero net' yw drwy wrthbwyso a hynny drwy gynhyrchu rhagor o ynni adnewyddadwy a dal carbon. Mewn ymateb penodol i baneli solar ben to, dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynaliadwy, er bod y Cyngor ymhlith yr awdurdodau lleol sy'n cynhyrchu'r mwyaf o ynni solar ben to yng Nghymru, mae angen buddsoddiad pellach er mwyn cyrraedd y nod o fod yn sero net erbyn 2030.

  Mewn ymateb i'r sylwadau a godwyd, ychwanegodd y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd fod cryn dipyn o waith yn cael ei wneud ar lefel strategol i ddatblygu safleoedd ynni adnewyddadwy gan gynnwys safle Nant-y-caws oedd yn safle blaengar o ran yr economi gylchol.

  Roedd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd yn cydnabod bod angen bod yn fwy ystwyth ar frys gyda mwy o bwyslais ar weithio gyda'r trydydd sector.

- Gofynnwyd a oedd unrhyw grantiau neu gymorth ar gael i neuaddau pentref lleol osod paneli solar? Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd y gallai fod cefnogaeth drwy'r Rhaglen Leader a'r Biwro sy'n cyflwyno grantiau cymunedol ar gyfer gosod ffynonellau ynni adnewyddadwy. Yn wyneb costau byw cynyddol, cydnabuwyd y byddai hwn yn amser da i rhannu'r wybodaeth a manteision ynni adnewyddadwy i gymunedau.

- Cyfeiriwyd at baragraff ar dudalen 13 o'r adroddiad a oedd yn nodi 'Yn ddiweddar gwnaethom gomisiynu Land Use Consultants Ltd i gyflwyno strategaeth sy'n nodi sut i wella Seilwaith Gwyrdd a Glas mewn wyth tref ddethol ar draws y Sir'. Gofynnwyd pa wyth tref a ddewiswyd? Nododd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd mai'r wyth tref oedd Llanelli, Caerfyrddin, Rhydaman/ Crosshands, Cwmaman, Cydweli, Sanclêr, Llanymddyfri a Chastellnewydd Emlyn. Yn ogystal, byddai'n rhannu dolen ag Aelodau'r Pwyllgor ar y strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas, yr oedd ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn ei chylch ar hyn o bryd.

- Gofynnwyd a fyddai ymchwiliad yn cael ei gynnal o ran cysylltu'r coridorau teithio llesol gwyrdd a glas rhwng yr wyth tref? Dywedodd y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd fod Teithio Llesol yn yr wyth tref a'r cyffiniau yn rhan o'r broses ymgynghori ac yn rhan o gynlluniau datblygu'r ardal.

- Yn dilyn trafodaeth gynharach, cynigiwyd yn ffurfiol bod adroddiadau cynnydd y Cynllun Carbon Sero Net yn y dyfodol yn cynnwys cost arbedion. Eiliwyd y cynnig hwn.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CABINET:

8.1 bod Adroddiad Cynnydd y Cynllun Carbon Sero Net yn cael ei gymeradwyo;

8.2 awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Swyddogion wneud addasiadau teipio neu ffeithiol yn ôl yr angen, i wella eglurder a chywirdeb y Cynllun Carbon Sero-net - Adroddiad Cynnydd.

8.3 bod adroddiadau cynnydd y Cynllun Carbon Sero Net yn y dyfodol yn cynnwys cost arbedion.

9. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Ystyriodd y Pwyllgor y rhestr o eitemau i gael eu cynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf oedd i'w gynnal ar 24 Tachwedd 2022 a rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor wneud cais am unrhyw wybodaeth benodol yr hoffai'r Aelodau ei chynnwys yn yr adroddiadau.

Yn ogystal â'r adroddiadau a oedd i'w cyflwyno yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Craffu ar 24 Tachwedd, nododd yr Aelodau'r adroddiadau a fyddai hefyd yn cael eu dosbarthu iddynt y tu allan i broses graffu ffurfiol y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y rhestr o'r eitemau i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 24 Tachwedd 2022.

10. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 7 MAWRTH 2022

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2022, gan eu bod yn gywir.

_____ _____

CHAIR **DATE**